**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

24 Ionawr 2023

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynglŷn â'r gwerthusiad o weithgareddau a gwaith ymgysylltu Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA 2022. Rwy'n cytuno y dylai'r gweithgareddau a dderbyniodd gymorth gael eu gwerthuso'n drwyadl, a dylai pob partner ddysgu o'r profiad hwn. Rwyf wedi darparu atebion i'ch cwestiynau penodol isod.

*1) Pwy fydd yn cynnal y gwerthusiad hwn – hynny yw, a fydd Llywodraeth Cymru yn ei gynnal, neu a ofynnir i drydydd parti ei gynnal?*

Mae Arad wedi cael ei gontractio i werthuso ein gweithgareddau ar gyfer Cwpan y Byd. Bydd y gwerthusiad yn defnyddio data monitro o'r ymgyrch farchnata, y prif ganlyniadau yr oedd rhaid eu cyflawni o dan y Gronfa Cefnogi Partneriaid, ymchwil berthnasol i ddefnyddwyr ac ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid.

Bydd gwerthusiad ar wahân yn cael ei gynnal gan Dîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru, a fydd yn canolbwyntio ar weithgareddau drwy ein swyddfeydd tramor. Byddwn yn cynnwys hwn fel astudiaeth achos yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Rhwydwaith Tramor ar gyfer 2022–23 yr ydym yn gobeithio ei gyhoeddi erbyn Mehefin 2023.

*2) Pryd bydd y gwerthusiad hwn yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi?*

Bydd y prif werthusiad gan Arad yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi yng Ngwanwyn 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3) *Beth oedd y dangosyddion perfformiad allweddol a'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r gwaith hwn ym mis Mehefin 2022, hynny yw cyn i unrhyw werthuso gael ei gynnal?*

Roedd pedwar amcan Llywodraeth Cymru ar gyfer Cwpan y Byd, sef hyrwyddo Cymru, rhannu ein gwerthoedd, sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru a sicrhau bod ein cyfranogiad yn gadael gwaddol, yn llywio ein gweithgareddau a'r canlyniadau penodol roeddem yn ceisio eu cyflawn.

Cafodd fframwaith mesur ei ddatblygu ar gyfer y gweithgareddau marchnata, a oedd yn canolbwyntio ar amrediad o safonau diwydiant, er enghraifft, ‘cyfleoedd i weld’, nifer yr ymwelwyr i’r gwefan, faint o weithiau mae fideos wedi cael eu gwylio a chwiliadau am gynhyrchion. Mae metrigau eraill ar waith hefyd ar gyfer yr elfennau marchnata busnes a marchnata twristiaeth.

Ym mis Medi 2022 gwnaethom lansio Cronfa Cefnogi Partneriaid gwerth £1.8 miliwn, a chyhoeddi 19 prosiect a oedd â'r nod o gefnogi ein hamcanion craidd ar gyfer Cwpan y Byd gydag amrediad o weithgareddau amrywiol yng Nghymru a'r tu hwnt. Byddwn yn trafod yn agos â'r ymgeiswyr i ddeall yn llawn sut y gwnaethant fanteisio ar y cyllid hwn, a bydd yr wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y gwerthusiad.

4) *Beth oedd y dangosyddion perfformiad allweddol a'r targedau mesuradwy a oedd yn gysylltiedig â'ch amcanion craidd, ac i ba raddau y cafodd y rhain eu cyflawni?*

Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol a'r gweithgareddau marchnata’n cynnwys nifer y gweithiau mae tudalen wedi cael ei gweld, nifer yr ymwelwyr â'r wefan, faint o weithiau mae fideos wedi cael eu gwylio a chwiliadau am gynhyrchion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd, i'w cynnwys yn yr adroddiad.

5) *Oes unrhyw ganlyniadau penodol eraill wedi cael eu cyflawni o ganlyniad i'r gweithgareddau na chawsant eu cefnogi gan eich dangosyddion perfformiad allweddol?*

Er nad yw llawer o'r canlyniadau'n gyffwrddadwy, ac maent yn anodd eu mesur, mae gweithgareddau mewn perthynas â Chwpan y Byd wedi gwneud Cymru yn fwy gweladwy, ac wedi arwain at gyfleoedd i wneud cysylltiadau newydd ac atgyfnerthu rhai presennol â rhanddeiliaid allweddol – gan godi proffil Cymru a chefnogi'r gwaith o rannu ein gwerthoedd.

Roedd timau tramor Llywodraeth Cymru yn y Dwyrain Canol wedi bod yn canolbwyntio'n benodol ar Qatar, gan gynnal dau ymweliad Gweinidogol yn ogystal â chodi proffil Cymru a Llywodraeth Cymru yn y farchnad a hyrwyddo masnach a buddsoddi, gan gynnwys cinio i hyrwyddo bwyd a diod Cymru, brecwast i'r Cymry ar wasgar a derbyniad rhwydweithio VIP.

Gwnaeth fy mhresenoldeb innau yn seremoni agor Cwpan y Byd FIFA a gêm gyntaf Cymru yn erbyn UDA, a chinio gyda Gweinidog Materion Tramor Qatar ac Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, a phresenoldeb Gweinidog yr Economi yn y gêm rhwng Cymru a Lloegr yn sicrhau bod Cymru yn cael ei chyflwyno'n llawn ar lwyfan y Byd. Roedd rhaglen yr ymweliad Gweinidogol yn rhoi cyfle i hyrwyddo Cymru a rhannu ein gwerthoedd. Rydym wedi cyhoeddi dau ddatganiad ysgrifenedig ar yr ymweliadau hyn:

Datganiad Ysgrifenedig: Ymweliad y Prif Weinidog â Qatar
Datganiad Ysgrifenedig: Ymweliad Gweinidog yr Economi â Qatar

Y gwaddol cadarnhaol rydym yn ei ddisgwyl gan ein gweithgareddau yn Qatar yn deillio i raddau helaeth o fasnach, buddsoddi a gweithgareddau diwylliannol/gwerthoedd. Bydd ehangu ein rhwydweithiau ar gyfer busnes, diwylliant a'r Cymry ar wasgar yn sicrhau y bydd ein gweithgareddau ar gyfer Cwpan y Byd yn gadael gwaddol parhaol a chadarnhaol.

Roedd tîm Llywodraeth Cymru yn UDA hefyd yn defnyddio Cwpan y Byd i godi proffil Cymru yma. Cynhaliodd y tîm raglen helaeth o weithgareddau ledled UDA. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau cyn Cwpan y Byd yn cefnogi rhanddeiliaid cyngresol ar ddatganiad llafar yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr i ddathlu'r ffaith bod UDA a Chymru wedi cyrraedd y gystadleuaeth, ac ymgyrch baneri stryd yn Philadelphia a thaith fasnach i Ogledd a De Carolina gydag FAW.

Roedd gweithgareddau ar gyfer y gêm ei hun rhwng UDA a Chymru yn canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid newydd a rhai presennol. Cafodd digwyddiadau eu trefnu mewn dinasoedd ledled UDA – Washington, Efrog Newydd, Atlanta a Los Angeles. Roedd ein prif ddigwyddiad yn Washington DC, lle ymunodd Llywodraeth Cymru â Gŵyl Dupont a phartneriaid eraill yn America ar gyfer 'Soccer in the Circle' – dathliad un diwrnod o Gymru ac UDA. Pinacl y digwyddiad oedd y gêm rhwng UDA yn erbyn Cymru. Roedd Gweinidog yr Economi yn bresennol yn y digwyddiad, a chafodd y digwyddiad sylw helaeth yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol, a denodd dro 2,000 o bobl gan ddangos Cymru drwy hysbysebion, cerddoriaeth, y celfyddydau a bwyd.

Yn ystod Cwpan y Byd lansiwyd nifer o ymgyrchoedd busnes yn UDA hefyd, gan gynnwys hysbysiad yn y fersiwn brintiedig o'r Wall Street Journal ar ddiwrnod y gêm rhwng UDA a Chymru, gydag ymgyrch hyrwyddo wedi'i noddi ar LinkedIn a Google.

Cafodd digwyddiadau i ddathlu Cwpan y Byd eu cynnal yn Llundain a ledled Ewrop hefyd. Roedd Tŷ Cymru ar y Southbank yn Llundain am bedwar diwrnod, ac yn lleoliad amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys mewnfuddsoddi mewn technoleg ariannol, ffilm gan Gelfyddydau Cenedlaethol Cymru, y Gymraeg, y Cymry ar wasgar ledled y Byd, diplomyddiaeth chwaraeon, yn ogystal â gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach mewn perthynas â thwristiaeth a bwyd diod Cymru. Bu digwyddiadau yn Nulyn, Paris, Berlin a Brwsel, a oedd yn caniatáu i dimau godi proffil Cymru a rhannu negeseuon wedi'u teilwra â busnesau, rhanddeiliaid a'r Cymry ar wasgar Daeth llawer o bobl i'r digwyddiadau hyn, a gwnaethant roi'r cyfle i atgyfnerthu cysylltiadau â phartneriaid allweddol.

6) *A fydd y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddiad o wersi a ddysgwyd i lywio gweithgareddau a dulliau gweithredu ar gyfer digwyddiadau a chyfleoedd i ddiplomyddiaeth chwaraeon yn y dyfodol?*

Bydd. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwersi a ddysgwyd o'n profiadau o Gwpan y Byd hwn i lywio cyfleoedd ar gyfer diplomyddiaeth chwaraeon yn y dyfodol, fel Cwpan Rygbi'r byd

*7) A fydd y gwerthusiad yn ystyried cryfderau a gwendidau eich gweithgareddau?*

Bydd y gwerthusiad a'r adolygiad mwy cyffredinol o'n rhaglen yn amlinellu beth oedd yn gweithio'n dda a sut y gallwn edrych ar wneud pethau'n wahanol, a bydd hyn yn llywio'r ffordd rydym yn hyrwyddo Cymru drwy ddigwyddiadau diplomyddiaeth chwaraeon yn y dyfodol. Bydd y gwerthusiad allanol yn canolbwyntio ar gyflawniadau cyffredinol h.y.

- Alinio'r hyn roedd angen ei gyflawni ag amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyfres o weithgareddau ac amcanion polisi strategol eraill
- Asesu i ba raddau mae'r gweithgaredd a gafodd gymorth wedi llwyddo i gyflawni'r hyn roedd angen ei gyflawni
- Asesu, cyn belled ag y bo modd, gyfraniad y gweithgaredd a gafodd ei gyflawni at amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cwpan y Byd
- Darparu argymhellion a gwersi a ddysgwyd ar gyfer cyfleoedd a all godi yn y dyfodol

8) *A fydd y gwerthusiad yn dangos pa mor effeithiol yr ydych wedi defnyddio eich adnoddau h.y. cyllid?*

Nid dyma yw nod y gwerthusiad allanol ac nid yw effeithiolrwydd grantiau o fewn ei gwmpas. Pan fydd hynny'n ymarferol, bydd cymariaethau o ba mor dda y cafodd yr arian ei ddefnyddio eu cynnal, ynghyd ag agweddau rhanddeiliaid yn hyn o beth.

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**